Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

Mynd i wrandawiad tribiwnlys

Llyfryn i blant a phobl ifanc



Cysylltwch â ni yn TAC os oes gennych unrhyw gwestiynau ar ôl darllen y llyfryn hwn:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.



Llinell Gymorth:
03000 25 9800

E-bost:
tribiwnlysaddysg
@llyw.cymru

Gwefan:
tribiwnlysaddysg
.llyw.cymru

Post:
Uned Tribiwnlysoedd
Cymru
Blwch SP 100
Llandrindod
LD1 9BW

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthych chi am:

Beth ydy tribiwnlys	2
Pam bod pobl yn mynd i wrandawiad tribiwnlys	3
Pwy fydd mewn gwrandawiad tribiwnlys	7
Beth sy'n digwydd mewn gwrandawiad tribiwnlys	9
Beth sy'n digwydd ar ôl gwrandawiad tribiwnlys	15

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Beth ydy tribiwnlys?

Mae TAC yn dribiwnlys. Mae pobl yn gallu mynd i dribiwnlys os ydyn nhw yn anhapus am rai penderfyniadau sydd yn effeithio arnyn nhw.

Mae tribiwnlys yn debyg i **ddyfarnwr**. Dydyn ni ddim yn cymryd ochrau ond rydyn ni yn sicrhau bod rheolau pwysig, o'r enw **deddfau**, wedi cael eu dilyn yn gywir pan oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Mae deddfau yn dweud wrthym am bethau fel:

* rhaid i blentyn dderbyn addysg mewn ysgol neu yn rhywle arall, a
* ni ddylai ysgolion drin plentyn yn annheg oherwydd ei anabledd.

Os byddwn yn darganfod nad ydy'r ddeddf wedi'i dilyn yn gywir yna gall y tribiwnlys wneud gorchymyn i newid neu i gywiro pethau.



Mae **gorchymyn tribiwnlys** yn gallu bod am:

* pa help rydych chi ei angen i ddysgu,

* pa ysgol ydych chi'n mynd iddi, neu

* cywiro pethau os ydyn ni'n darganfod eich bod wedi cael eich trin yn annheg oherwydd anabledd.

Pam bod pobl yn mynd i wrandawiad tribiwnlys?

Rydych yn gallu mynd i wrandawiad tribiwnlys os ydy *apêl neu *hawliad amdanoch chi.

Beth ydy apêl anghenion dysgu ychwanegol?

Ateb:

- weithiau mae plant angen mwy o help yn yr ysgol neu gyda'u haddysg er mwyn iddynt allu dysgu.
- apêl ydy pan fyddwch chi'n dweud wrthyn ni eich bod yn anghytuno gyda rhai penderfyniadau sydd yn ymwneud â'ch addysg.
- er enghraifft, mewn apêl, gallwch ddweud wrthyn ni am:
- pam eich bod yn teimlo eich bod angen mwy o help i ddysgu,
- pa fath o help fyddai'n gwneud pethau'n well i chi,
- gall apêl fod hefyd am y math o ysgol yr ydych yn mynd iddi.
- mae plant yn gallu gwneud apêl eu hunain neu gyda help cyfaill achos.
- mae eich rhieni hefyd yn gallu gwneud apêl. Felly mae apêl hefyd yn digwydd pan fydd eich rhiant yn dweud wrthyn ni ei fod ef neu hi yn anghytuno gyda phenderfyniad am eich addysg.

Beth ydy hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd?

Ateb:

- efallai eich bod yn teimlo eich bod wedi derbyn triniaeth gwaeth neu llai ffafriol yn yr ysgol oherwydd eich anabledd neu am reswm arall i wneud ag anabledd. Hawliad ydy lle rydych yn dweud wrthyn ni beth sydd wedi digwydd.
- er enghraifft efallai bod hawliad am beidio â chael mynd ar drip ysgol oherwydd eich bod yn defnyddio cadair olwyn.
- mae plant yn gallu gwneud hawliad eu hunain neu gyda help cyfaill achos.
- os ydy TAC yn cytuno gyda hawliad byddwn yn gwneud gorchymyn i gywiro pethau. Os nad ydyn ni'n cytuno gyda hawliad fyddwn ni ddim yn gwneud gorchymym. Os na fyddwn ni'n cytuno gyda'ch hawliad fe fyddwn ni yn dweud pam yn ein penderfyniad
- mae eich rhieni yn gallu gwneud hawliad hefyd. Felly mae hawliad yn gallu bod yn un lle mae eich rhieni yn dweud wrthyn ni eich bod wedi derbyn triniaeth llai ffafriol yn yr ysgol oherwydd anabledd.

Gwrandawiad tribiwnlys ydy lle rydyn ni yn **TAC** yn trefnu **cyfarfod** rhwng pawb sydd yn rhan o'r apêl neu hawliad.

- Bydd grŵp o tri o bobl o **TAC** mewn **gwrandawiad tribiwnlys**. Rydyn ni'n galw'r bobl yma yn **panel tribiwnlys.**
- Bydd beth fyddwch chi a phobl eraill yn ei ddweud wrth y panel tribiwnlys yn y gwrandawiad yn rhoi gwybodaeth bwysig am yr apêl neu'r hawliad
- Rydyn ni'n galw hyn yn rhoi tystiolaeth. Bydd y dystiolaeth yn helpu'r panel tribiwnlys i wneud penderfyniad am yr apêl neu'r hawliad.

Ffeithiau am wrandawiadau tribiwnlys:

- fel arfer mae gwrandawiadau yn cael eu cynnal mewn **gwesty**,
- bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn **breifat**,
- ni ddylai eich taith i'r tribiwnlys gymryd mwy nag awr
- weithiau bydd y gwrandawiad yn para trwy'r dydd.



Does dim rhaid i chi fynd i'r gwrandawiad tribiwnlys. Ond os ydych chi, rhaid i chi ddod â rhywun gyda chi i ofalu amdanoch. Y rheswm am hynny ydy rhag ofn i chi benderfynu peidio ag aros am y gwrandawiad cyfan.

Rydych chi a'r bobl eraill sydd yn rhan o'r apêl neu hawliad yn gallu mynd i'r gwrandawiad tribiwnlys.

- bydd **cadeirydd y tribiwnlys** yn gosod yr amserlen am y diwrnod,
- bydd pawb yn cael cyfle i siarad am eu hochr nhw o'r stori
- bydd pawb hefyd yn cael cyfle i holi ei gilydd am yr apêl neu'r hawliad.

Pwy fydd mewn gwrandawiad tribiwlys?

Efallai bydd Llawr o bobl mewn gwrandawiad. Efallai mai dim ond rhai neu'r cyfan o'r bobl hyn fydd yn dod I'ch gwradawlad. Mae gan pob person sydd yn dod i wrandawiad Tribiwnlys waith gwahanol I'w wneud.

Grwp o 3 o bobl ydy'r panel tribiwlys. Maen nhw i gyd yn arbenigwyr ar gyfraith addysg

Y Cadeirydd sydd yn gofalu am wrandawiad y Tribiwnlys. Mae'n gwrando'n ofalus ar beth y mae pob person yn ei ddweud. Bydd y cadeirydd yn gofyn cwestiynau ac yn gwneud nodiadau.

Byd aelodau'r panel addysg hefyd yn gwrando ar beth y mae pob person yn ei ddweud ac yn gofyn cwestiynau.

Tystion yn aml ydy gweithwyr proffessiynol, fel ffisiotherapyddion, therapyddion lleferydd ac iaith a athrawon.

Fel afer maen nhw'n siarad am adroddiadau ac am eich datblygaid yn yr ysgol a pha help yr ydych ei angen.

Mae'r clerc yn cyfarfod pobl wrth iddyn nhw gyrraedd ac yn dangos iddyn nhw lle i fynd. Mae'r clerc yn gofalu am bapurau'r gwrandawiad ac yn cofnodi beth mae pawb yn ei ddweud yn y gwrandawiad ar beiriant.

* Mae grwp o bobl amser mewn ysgol sydd yn gofalu am bethau pwysig fel anabledd, Maen nhw'n cael eu galw yn llywodraethwyr yr ysgol

* Mae'r awdurdod lleol yn rhan o'r Llywodraeth. Mae'r bobl sydd yn gwrithio i'r awdurdod lleol yn gofalu am lawer o wasaneathau lleol, fel eich ysgol.



Beth sy'n digwydd mewn gwrandawiad tribiwnlys?

Mae pob gwrandawiad tribiwnlys yn wahanol. Fel arfer bydd yr amserlen yn edrych fel hyn:

Amserlen ar gyfer gwrandawiad Tribiwnlys

Cyrraedd

Cyrraedd — **Bydd clerc o TAC yn cyfarfod pobl wrth iddyn nhw gyrraedd y gwrandawiad**

Aros — **Bydd pawb sydd yn mynd i'r gwrandawiad yn cael eu harwain i ystafell aros.**

Dechrau — **Bydd y gwrandawiad yn dechrau tua 10:00 yn y bore. Bydd y clerc yn dod i'ch nôl pan fydd yn amser i'r gwrandawiad ddechrau.**

Gwrandawiad yn dechrau

Bydd cadeirydd y tribiwnlys yn dechrau trwy:

- sicrhau bod pawb yn y gwrandawiad wedi cael eu cyflwyno,
- dweud beth sy'n digwydd mewn gwrandawiad,
- gosod amserlen,
- siarad am beth arall sydd angen ei wneud.

Siarad

Bydd pawb yn cael cyfle i ddweud wrth y panel tribiwnlys am:
• eu hochr nhw o'r stori am yr apêl neu hawliad,
• beth ddigwyddodd yn eich ysgol neu gyda'ch addysg,
• pam eu bod nhw'n cytuno neu yn anghytuno gyda'r apêl neu hawliad,
• beth mae nhw eisiau i'r tribiwnlys ei wneud am y peth

?Cwestiynau

Bydd pawb yn cael cyfle i ofyn cwestiynau am yr apêl neu'r hawliad.

I apeliadau gall y cwestiynau fod am:
- eich ysgol,
- sut rydych chi'n gwneud yn yr ysgol,
- pa fath o broblemau sydd gennych gyda dysgu,
- pa help ydych chi'n feddwl rydych chi ei angen,
- unrhyw adroddiadau arbennig sydd wedi'u hysgrifennu amdanoch

I hawliadau gall y cwestiynau fod am:

- sut mae eich anabledd, os oes gennych un, yn effeithio arnoch chi,
- • beth ddigwyddodd yn yr ysgol,
- • beth y gellir ei wneud i gywiro pethau

Bydd pawb yn cael cyfle i siarad am unrhyw feddyliau terfynol sydd ganddynt am yr apêl neu'r hawliad wrth y panel tribiwnlys.

Egwyl a chinio

Bydd egwyl ac amser am ginio yn ystod y gwrandawiad

Mynd adref

Does dim rhaid i chi aros am y gwrandawiad cyfan a gallwch fynd adref ar unrhyw adeg yn ystod y dydd.

Beth sy'n digwydd pan fydd yn amser i mi gymryd rhan?

Os ydych yn mynd i'r gwrandawiad efallai y bydd y panel tribiwnlys eisiau eich cyfarfod chi, eich cyfaill achos a rhiant neu ofalwr i ddechrau. Gall cynrychiolwyr hefyd gymryd rhan .

- bydd y clerc yn dangos i chi lle i fynd a lle i eistedd,
- bydd cadeirydd y tribiwnlys yn cyflwyno pawb fel eich bod yn gwybod pwy ydy pwy.

Bydd y panel tribiwnlys eisiau clywed beth sy'n bwysig i chi am eich apêl neu hawliad. Efallai y byddan nhw'n gofyn cwestiynau fel:

- beth ydych chi'n ei hoffi yn yr ysgol a pham?
- beth ydych chi ddim yn hoffi yn yr ysgol a pham?
- pa broblemau sydd gennych gyda dysgu?
- pa newidiadau ydych chi eisiau eu gwneud i'ch helpu i ddysgu?
- pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi'u gwneud sydd wedi effeithio ar eich dysgu?

Efallai y bydd gan y panel tribiwnlys a'r bobl eraill yn y gwrandawiad gwestiynau eraill i'w gofyn i chi. Mae beth yr ydych chi yn ei ddweud yn helpu'r panel tribiwnlys i wneud penderfyniad am yr apêl neu'r hawliad.

Pan fydd yn amser i mi siarad, beth sy'n rhaid i mi ei wneud?

1. gwrando'n ofalus ar beth y mae pobl yn ei ddweud,
2. ateb unrhyw gwestiynau y maen nhw yn eu gofyn,
3. os nad ydych chi'n deall beth mae pobl yn ei ddweud neu beth y maen nhw yn ei ofyn i chi, dywedwch wrthyn ni nad ydych chi'n deall, ac
4. yn bwysicach na dim, dywedwch wrthyn ni beth ydych chi eisiau ei weld yn digwydd.

Efallai y bydd gwrandawiad tribiwnlys yn para trwy'r dydd. Dydyn ni ddim yn disgwyl i chi aros am y gwrandawiad cyfan. Efallai y byddwch yn penderfynu eich bod eisiau mynd adref ar ôl i chi gael siarad, neu gallwch aros – penderfynwch chi!



Dywedwch wrthyn ni os ydych angen rhywbeth fel:

- diod o ddŵr,
- egwyl i fynd i'r toiled
- gorffwys am ychydig,
- hances bapur.

Beth i fynd gyda chi i wrandawiad.

Os byddwch yn mynd i wrandawiad tribiwnlys bydd rhywun yr ydych yn ei adnabod gyda chi. Efallai mai rhiant, gofalwr neu cyfaill achos fydd y person hwnnw.

Bydd rhaid i chi aros am ychydig hyd nes y bydd yn amser i'r gwrandawiad ddechrau. Unwaith y bydd y gwrandawiad yn dechrau bydd digon o gyfle i gael egwyl. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i chi dreulio amser yn y man aros cyn y gwrandawiad ac yn ystod yr amseroedd egwyl.

Mae'n syniad da cael:

- ychydig o deganau, llyfrau neu gemau tawel i'ch cadw'n brysur,
- siwmper neu rhywbeth cynnes i'w wisgo rhag ofn i chi deimlo'n oer,
- rhywbeth i'w fwyta ac i'w yfed amser cinio.

Rheolau i bawb yn y gwrandawiad.

1. **Rydych yn cael mynd i ystafell y gwrandawiad pan fydd y clerc yn mynd â chi yno.**
Felly mae pawb yn cael clywed beth sy'n cael ei ddweud yn y gwrandawiad.

2. **Gofynnwch os ydych eisiau siarad.**
Os ydych eisiau dweud rhywbeth rhowch wybod i **gadeirydd y tribiwnlys**. Byddan nhw'n gwneud yn siŵr eich bod yn cael cyfle i siarad.

3. **Os nad ydych yn deall rhywbeth - gofynnwch!**
Os nad ydych yn deall beth sy'n cael ei ddweud, gofynnwch i ni esbonio.

4. **Dywedwch wrthyn ni beth ydych yn ei feddwl a beth ydych eisiau.**
Rydyn ni eisiau clywed beth sy'n bwysig i chi. Felly dywedwch wrthyn ni **beth ydych yn ei feddwl** a **beth ydych eisiau.**

5. **Rhaid i bawb fod yn dawel.**
Rhaid i chi fod mor **dawel** ag y gallwch pan fo pobl eraill yn siarad er mwyn i ni allu eu clywed. Gallwch ddod â thegan neu gêm dawel gyda chi os ydy hynny yn eich helpu.

6. **Dywedwch wrth rhywun os ydych chi eisiau egwyl.**
Bydd digon o amseroedd egwyl yn y gwrandawiad. Os ydych eisiau egwyl yn gynharach gallwch adael i rhywun wybod trwy ddweud hynny neu trwy ddefnyddio'r **cerdyn stop**.

Beth sy'n digwydd ar ôl gwrandawiad tribiwnlys?



Mae apêl neu hawliad fel jigso mawr.
Mae llawer o ddarnau gwahanol y mae'n rhaid i'r **panel tribiwnlys** eu rhoi at ei gilydd er mwyn iddyn nhw weld y darlun cyfan.

I weld y darlun cyfan rhaid i'r **panel tribiwnlys**:

- darllen yn ofalus yr holl wybodaeth am yr apêl neu'r hawliad sydd wedi'i anfon atom; a
- gwrando'n ofalus ar beth sydd gan bawb yn y gwrandawiad i'w ddweud am yr apêl neu'r hawliad.

Byddwn yn ysgrifennu atoch chi neu eich rhiant **2 wythnos** ar ôl y gwrandawiad i ddweud wrthych chi beth y mae'r **Tribiwnlys** wedi'i benderfynu.

Os ydych eisiau siarad am y gwrandawiad a'r penderfyniad gofynnwch i rhywun sydd yn eich adnabod ac yn gwybod am eich apêl neu hawliad.

Gwrthod

Os nad ydy'r **Tribiwnlys** yn cytuno gyda'r apêl neu'r hawliad bydd yn ei wrthod. Bydd y penderyfniad yn dweud **gwrthod**.

Caniatau

Os ydy'r **Tribiwnlys** yn cytuno gyda'r apêl neu'r hawliad bydd y penderfyniad yn dweud **caniatau**.

Caniatau yn rhannol

Os ydy'r **Tribiwnlys** yn cytuno gyda darn o'r apêl neu'r hawliad bydd y penderfyniad yn dweud **caniatau yn rhannol**

Notes: